
Hysbysebu trwydded Gwasanaethau Ychwanegol radio cenedlaethol

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 7 Medi 2021

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 6 Hydref 2021

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Beth rydyn ni'n ei gynnig – yn gwyno

Gellir defnyddio'r drwydded Gwasanaethau Ychwanegol i ddarlledu gwasanaethau data. Bydd y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol bresennol, sy'n defnyddio capasiti sbâr ar yr amleddau a ddefnyddir i ddarlledu'r gwasanaeth radio cenedlaethol, Classic FM, yn dod i ben ar 28 Chwefror 2022.

Rydyn ni'n bwriadu hysbysebu trwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd i ddechrau ar ôl i'r drwydded gyfredol ddod i ben. Cyn gwahodd ceisiadau am y drwydded honno, mae'n rhaid i Ofcom ymgynghori ar nifer o ffactorau a fydd yn pennu rhai o nodweddion y drwydded.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cynigion ynglŷn â'r ffactorau hynny. Rydyn ni'n cynnig cyhoeddi'r drwydded newydd am gyfnod o naw mlynedd a dau fis; rydyn ni'n cynnig darparu'r un capasiti ag sydd ar gael ar gyfer y drwydded bresennol; ac rydyn ni'n cynnig gosod y ffi flynyddol ar gyfer y drwydded (y 'canran o refeniw cymwys', neu PQR) ar 4%, yr un fath ag y mae ar hyn o bryd. Rydyn ni'n gwahodd rhanddeiliaid i gyflwyno eu sylwadau ar ein cynigion.

- 1.1 Trwydded a roddir gan Ofcom ar gyfer defnyddio capasiti dros ben ar amleddau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau darlledu sain yw Trwydded Gwasanaethau Ychwanegol. Dim ond un Drwydded Gwasanaeth Ychwanegol y mae Ofcom yn ei chyhoeddi. Ar hyn o bryd, mae'r drwydded hon yn cael ei dal gan INRIX UK Ltd ac mae'n defnyddio capasiti sbâr o'r amleddau a ddefnyddir i ddarlledu Classic FM i drosglwyddo gwybodaeth am draffig a theithio ar ffyrdd i ddyfeisiau llywio yn y car. Bydd y drwydded bresennol yn dod i ben ar 28 Chwefror 2022.
- 1.2 Rydyn ni'n bwriadu hysbysebu trwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd i ddechrau ar ôl i'r drwydded gyfredol ddod i ben. Cyn gwahodd ceisiadau am y drwydded honno, rhaid i Ofcom ymgynghori ar nifer o ffactorau a fydd yn pennu rhai o nodweddion y drwydded. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cynigion ynglŷn â hyd y drwydded (adran 3), faint o gapasiti sbâr sydd ar gael i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol o dan y drwydded arfaethedig (gweler yr adran hon ac Atodiad 4), a lefel y taliad sydd i'w wneud gan ddeiliad y drwydded newydd ar sail Canran Benodol o Refeniw ("PQR") (adran 5).
- 1.3 O ran hyd y drwydded, rydyn ni'n cynnig y dylai'r cyfnod fod yn naw mlynedd a dau fis, gyda'r drwydded yn dod i ben ddim hwyrach na diwedd y drwydded Classic FM newydd, ym mis Ebrill 2030. Rydyn ni hefyd yn cynnig darparu'r un faint o gapasiti â'r drwydded bresennol, y mae'r fanyleb dechnegol ar ei chyfer wedi'i nodi yn Atodiad 5. O ran y PQR, rydyn ni'n bwriadu pennu bod y PQR yn 4%.
- 1.4 Rydyn ni wedi nodi yn y ddogfen hon y ffactorau rydyn ni wedi'u hystyried wrth ystyried y gwahanol opsiynau yn y materion hynny. Rydyn ni wedi ceisio asesu eu heffaith debygol a, lle bo'n briodol, rydyn ni'n gofyn am safbwyntiau ynghylch beth fyddai'n ddull priodol i Ofcom ei ddefnyddio.

- 1.5 Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn nodi'r broses rydyn ni'n bwriadu ei dilyn wrth ddyfarnu'r drwydded. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn cwestiynau ac yn gwahodd sylwadau. Rydyn ni'n gwahodd ymatebwyr i roi sylwadau pellach, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ar effaith ein cynigion wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel y gallwn ystyried eu sylwadau wrth wneud ein penderfyniadau.
- 1.6 Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn hysbysebu'r drwydded newydd arfaethedig. Bydd hyn, ymysg pethau eraill, yn gwahodd cynigion ariannol gan ymgeiswyr. Yna, ar ôl derbyn ceisiadau a chynigion, byddwn yn defnyddio dau drothwy.
- 1.7 Dim ond os yw'n ymddangos i ni ein bod yn bodloni'r trothwyon hyn y gallwn ystyried cais am arian ymgeisydd. O blith yr ymgeiswyr hynny sy'n eu bodloni, y prif faen prawf ar gyfer dyfarnu'r drwydded yw y bydd Ofcom yn ei dyfarnu i'r cynigydd arian parod uchaf (ac mae darpariaethau ar gyfer setlo achosion lle mae cynigion yr un fath, yn bennaf drwy ofyn am ragor o gynigion).
- 1.8 Os mai dim ond un cynigydd sydd ar gyfer y drwydded, a bod Ofcom yn gallu dyfarnu'r drwydded i'r cynigydd hwnnw, neu dim ond un cynigydd y gallem ddyfarnu iddo, byddem yn gwneud hynny.
- 1.9 Fodd bynnag, os oes mwy nag un cynigydd cymwys ar gyfer y drwydded, byddwn yn ystyried a yw'n ymddangos i ni fod amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn briodol i ni ddyfarnu'r drwydded i ymgeisydd ar wahân i'r cynigydd uchaf. Wrth wneud hynny, rydyn ni'n debygol o wneud y canlynol:
- cyhoeddi manylion y cynigwyr a'u cynigion ariannol, gan gynnwys eu symiau;
 - gwahodd ceisiadau gan gynigwyr ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb ynghylch pam a sut y dylai Ofcom, neu beidio, arfer ein disgresiwn i ddyfarnu'r drwydded i ymgeisydd ar wahân i'r cynigydd arian parod uchaf; a hefyd
 - cyhoeddi'r cyflwyniadau hynny a gwahodd ymatebion.
- 1.10 Wrth benderfynu a oes amgylchiadau eithriadol yn bodoli a fyddai'n ei gwneud yn briodol i Ofcom ddyfarnu'r drwydded i gynigydd nad oedd wedi cyflwyno'r cais am arian uchaf, byddem yn ystyried ein dyletswyddau statudol a'r holl dystiolaeth berthnasol.